No 10 November 2025

Un Llais Cymru

One Voice Wales

# GRANTIAU & CHYFLEOEDD ARIANNOL POSIB

## Cynllun Grant Perthyn Llywodraeth Cymru:

Hyd at £10,000 o arian refeniw i helpu gyda chostau cychwynnol yn ystod cyfnodau cynnar datblygu mentrau cymdeithasol, cyweithfeydd, cartrefi dan arweiniad y gymuned neu ymddiriedolaethau tir cymunedol sy'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd angen i grwpiau ddangos fod y Gymraeg yn rhan ganolog o'u menter a'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol. **Dyddiad cau 21ain Tachwedd.**

Mae **Cronfa Cymru** yn agored i elusennau a mudiadau gwirfoddol cyfansoddedig bach, lleol dan arweiniad y gymuned ac yn cynnig grantiau gwerth rhwng £500 – £2,000 y flwyddyn am hyd at 3 blynedd. **Dyddiad cau 1af Rhagfyr**. I gael mwy o wybodaeth: https://sefydliadcymunedolcymru.org.uk/grants/cronfa-i-gymru/

## Meithrin Natur

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol Nod Meithrin Natur yw gwella iechyd a lles plant a'r rhai sy'n gofalu amdanynt yng Nghymru. Mae'n gwahodd prosiectau sy'n cysylltu pobl â'r amgylchedd naturiol, gan gynnig profiadau cadarnhaol mewn natur a chymorth i gyrraedd, mwynhau a gofalu am ofod yn yr awyr agored. **Dyddiad cau 1af o Ragfyr.**
**https://www.tnlcommunityfund.org.uk/welsh/cyllid/rhaglenni-ariannu/meithrin-natur**

## Sefydliad Motability Gwell Mynediad at Deithio Llesol Profiadau ac Offer

Grantiau yn amrywio o £50,000 i £1 miliwn dros hyd at dair blynedd ar gael i wella opsiynau teithio llesol i bobl anabl. Gall cyllid helpu prosiectau sydd ag effaith syth neu hirdymor yn cynnwys llogi offer, rhaglenni grant, gwasanaethau cefnogi, hyfforddiant a chynlluniau peilot i brofi modelau neu ddatrysiadau newydd. **Dyddiad cau 15fed o Ragfyr.**

## Y Loteri Genedlaethol – Cefnogi Syniadau Gwych

Gall cyllid cefnogi syniadau gwych wneud grantiau i fudiadau sy'n cefnogi syniadau prosiect arloesol a strategol bwysig sy'n annog newid cymdeithasol cadarnhaol yng Nghymru.

Eisiau ariannu prosiectau sy'n: Arloesol – ffyrdd newydd o weithio Galluogi mudiadau i weithio mewn ffyrdd newydd Galluogi mwy o bobl i gyflawni eu potensial

Chwilio am fwy na dim ond syniad da – sut mae'n cael ei ddatblygu, pwy oedd yn rhan ohono, a sut mae'n adeiladu ar yr hyn sy'n digwydd yn eich cymuned yn barod

# GRANTIAU & CHYFLEOEDD ARIANNOL POSIB

Un Llais Cymru
One Voice Wales

## Cyfleoedd Rhanbarthol

**Cronfa Datblygu Cynaliadwy Sir Benfro**

Cronfa sy'n cefnogi prosiectau cymunedol ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r ardal er mwyn ceisio lleihau allyriadau carbon yn yr amgylchedd lleol ac ymateb i'r argyfwng hinsawdd.

**Fferm Wynt Alltraeth Gwastadeddau Rhyl,**

Mae cyllid ar gael ar gyfer prosiectau cymunedol ar hyd rhannau o arfordir y Gogledd. Mae'r gronfa yn gwahodd ceisiadau grant o £2,000 i fyny at £10,000.

## Moondance Foundation

yn cynnig grantiau i fudiadau ac achosion sy'n creu newidiadau trawsnewidiol mewn cymunedau yng Nghymru.

## Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol

Cynllun grantiau cyfalaf a drefnir gan Lywodraeth Cymru, ac mae grantiau ar gael ar ddwy lefel; grantiau bychain o dan £25,000 a grantiau mwy i fyny at £300,000. Gall Cynghorau Cymuned a Thref fod yn bartneriaid mewn unrhyw brosiect lle y mae'r cais yn cael ei arwain gan fudiadau cymunedol neu sector gwirfoddol neu fenter gymdeithasol.

## Arian Loteri ar gyfer y Celfyddydau, Iechyd a Llesiant

Nod y rhaglen hon yw cefnogi partneriaethau o sectorau'r celfyddydau, iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector i ddarparu prosiectau creadigol o ansawdd uchel sy'n cynnig buddion iechyd a llesiant gyfer pobl Cymru.

Natur - cysylltu â natur trwy'r celfyddydau; Iechyd meddwl - adeiladu gwytnwch a chefnogi gwell iechyd meddwl; Anghydraddoldebau iechyd - mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd Iechyd corfforol a llesiant – cefnogi gwell iechyd corfforol.

Mae'r cylch ariannu nesaf yn agor ar ddydd Mercher 19 Tachwedd 2025 a daw i ben am 1pm ar ddydd Mercher 21 Ionawr 2026.

## Dulliau Defnyddiol i Chwilio am Arian

Mae defnyddio peiriannau chwilio cyllid yn gallu eich helpu i ddod o hyd i gyfleoedd ariannu i'ch cyngor a grwpiau cymunedol. Mae nifer o Gronfeydd Buddion Cymunedol – cyfraniadau ariannol a wneir gan ddatblygwyr (e.e. ffermydd gwynt) i gefnogi prosiectau lleol.

**Sefydliad Cymunedol yng Nghymru**

**Cyllido Cymru**